# Ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Gydlyniant Cymdeithasol

## AMDANON NI

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol. Ein bwriad yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud gwahaniaeth mwy gyda'i gilydd.

Drwy'r papur hwn, hoffem dynnu sylw'r Pwyllgor at rôl y sector gwirfoddol yn y gwaith o adeiladu, galluogi a chynnal cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn archwilio'r heriau y mae mudiadau gwirfoddol yn eu hwynebu a'r cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach ar draws sectorau.

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a symleiddio ei dehongliad o gydlyniant cymdeithasol, gosod targedau clir, a chyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd ar y cynnydd tuag atynt.

**Argymhelliad 2:** Dylai cyrff y sector cyhoeddus weithio gyda mudiadau gwirfoddol fel partneriaid cyfartal i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.

**Argymhelliad 3:** Dylai pob corff cyhoeddus weithredu a chadw at y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chymunedau, cyrff cyhoeddus, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat i greu Polisi Cymunedol.

## DIFFINIO CYDLYNIANT CYMDEITHASOL

Mae cydlyniant cymdeithasol yn gysyniad cymhleth heb un diffiniad a dderbynnir yn gyffredinol yng Nghymru. Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni wedi ystyried:

- Cymru'n Cyd-dynnu: Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys dau ddiffiniad o 'gydlyniant cymunedol', a gweledigaeth yn seiliedig ar dair ffordd o weithio, a phum egwyddor sylfaenol
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol 2016 i 2017 Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys saith canlyniad
- Adolygiad 2021 Diverse Cymru o Raglen Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys saith nod
- Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Cymru o Gymunedau Cydlynus, sy'n cynnwys un diffiniad a thaith pedair ffrwd tuag at gyflawni'r nod

Er bod gorgyffwrdd rhwng agweddau ar bob dehongliad, mae gwahaniaethau sylweddol hefyd. Mae nifer helaeth y termau yn golygu ei bod yn anodd pennu beth yw syniad Llywodraeth Cymru o gydlyniant cymdeithasol, craffu ar gynnydd tuag ato, a phennu sut mae'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a symleiddio ei dehongliad o gydlyniant cymdeithasol, gosod targedau clir, a chyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd ar y cynnydd tuag atynt.

Mae gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig diffiniad cryno o bob nod a gwybodaeth gyson ar y cynnydd a wnaed tuag atynt. I gyd-fynd ag arwyddocâd a pharhad y Ddeddf, rydyn ni wedi penderfynu seilio ein hymateb ar sail eu dehongliad nhw o gydlyniant cymdeithasol at ddibenion yr ymgynghoriad hwn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dehongli cydlyniant cymdeithasol fel:

*Cymru o Gymunedau Cydlynus: cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da*

ac mae'n rhannu'r daith tuag at y nod hon yn bedwar maes:

- ***Pobl yn weithgar yn eu cymunedau*** *(creu'r amodau lle gall pobl a chymunedau wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw)*
- ***Cymunedau cysylltiedig*** *(cynorthwyo cymunedau i greu cysylltiadau da a bod yn ddiogel)*
- ***Mynediad i wasanaethau llesiant allweddol*** *(cynorthwyo economïau sylfaenol bywiog)*
- ***Sefydliadau angori cymunedau*** *(gwerthfawrogi'r rôl a'r potensial y gall sefydliadau angori cymunedau ei chwarae wrth adeiladu cymunedau cydlynus)*

## RÔL Y SECTOR GWIRFODDOL MEWN CYDLYNIANT CYMDEITHASOL

Mae'r sector gwirfoddol a gwirfoddolwyr yn chwarae rôl hanfodol ac amlochrog ym maes cydlyniant cymdeithasol. Mae mudiadau gwirfoddol yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus a'r sector preifat. Maen nhw'n meddu ar wybodaeth werthfawr am anghenion ac amgylchiadau lleol ac yn aml yn gweithredu fel cyfryngydd rhwng cymunedau a mudiadau. Er bod rhai mudiadau gwirfoddol wedi'u sefydlu gyda'r nod unswydd o hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, mae llawer o rai eraill yn hyrwyddo hynny fel sgil-effaith i'w gweithgareddau.

Mae'r sector gwirfoddol yn galluogi **pobl i fod yn weithgar yn eu cymunedau** – mae'n cynnig cyfleoedd i unigolion gymysgu a gwirfoddoli gyda'i gilydd. Mae cyfleoedd gwirfoddoli'n amrywio o weithgareddau sydd â'r nod o ymateb i argyfwng[1] (e.e. trychinebau naturiol), drwy liniaru heriau lleol parhaus (e.e. diffyg mynediad at weithgareddau chwaraeon a diwylliannol[2]), i wella'r

[1] Gwirfoddoli a llesiant yn ystod y pandemig Coronafeirws (yn cynnwys cyfuniad o hanner cant o astudiaethau achos yn seiliedig ar ymarfer)

[2] Enghraifft: Clwb Rygbi Bedlinog – clwb rygbi ym Merthyr Tudful a gaiff ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, sy'n cynnig system gymorth ar gyfer bron i 200 o bobl ifanc sy'n wynebu anfantais, gan gynnwys peryglon o gael eu heithrio o addysg, o gymryd rhan mewn troseddu, ac o ymddygiad gwrthgymdeithasol

amgylchedd lleol[3] (e.e. garddio cymunedol). Mae gwirfoddoli'n galluogi cymunedau i ddod at ei gilydd a meddwl am ddatrysiadau i broblemau lleol gyda'i gilydd.

Mae'r sector gwirfoddol yn cefnogi **cymunedau cysylltiedig**. Mae mudiadau trafnidiaeth cymunedol yn helpu pobl i gyrraedd apwyntiadau meddygol, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd.[4] Mae cynlluniau rhannu ceir yn lleihau tagfeydd ac allyriadau CO2, gan wneud ardaloedd yn llefydd brafiach i fyw.[5] Mae mudiadau teithio llesol yn darparu addysg, gan ysbrydoli cymhelliant a hyder yn eu buddiolwyr, sy'n mwynhau manteision bywyd mwy iach a chysylltiadau cymdeithasol lleol.[6] Tu hwnt i gysylltedd corfforol, mae mudiadau gwirfoddol hefyd yn helpu unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i feithrin sgiliau a hyder i gysylltu â'u cymuned leol a gwasanaethau ar-lein.[7]

Mae'r sector gwirfoddol hefyd yn rhoi **mynediad i wasanaethau llesiant allweddol** mewn cymunedau ledled Cymru. Mae mentrau cymdeithasol yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd lleol, gan ddarparu cyfleoedd am gyflogaeth deg, defnyddio cadwyni cyflenwi lleol, ac ateb angen lleol.[8] Mae cynlluniau ynni cymunedol yn creu gwydnwch drwy alluogi cymunedau i gynhyrchu a chael mynediad at ynni fforddiadwy, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.[9] Mae mudiadau gwirfoddol yn rhoi cymorth arbenigol i unigolion, gan eu helpu i glywed am wasanaethau llesiant lleol a chael mynediad atynt.[10]

---

[3] Adroddiad blynyddol Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi 2023/24 (yn cynnwys nifer fawr o astudiaethau achos ac yn crynhoi cyflawniadau prosiectau mewn 485 o gymunedau)

[4] Enghraifft: Cludiant i Iechyd yn Aneurin Bevan – prosiect Cymdeithas Cludiant Cymunedol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

[5] Mae rhai cynlluniau'n mynd ymhellach, gan alluogi rhannu ceir trydan. Enghraifft: TydaNi – gwasanaeth rhannu ceir trydan dan berchnogaeth y gymuned sy'n gweithredu ledled Cymru

[6] Enghraifft: Cysylltu Fyny – prosiect Sustrans Cymru sy'n gwella cysylltiadau rhwng y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac wyth o gymunedau gwledig ledled Cymru

[7] Enghraifft: Helpu pobl ag anableddau dysgu i fynd ar-lein – prosiect ar y cyd rhwng Anabledd Dysgu Cymru a Cymunedau Digidol Cymru sy'n galluogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at ofodau ar-lein

[8] Astudiaethau achos busnesau cymdeithasol (rhestr amrywiol o astudiaethau achos sy'n dangos effaith mentrau cymunedol yng Nghymru)

[9] Enghraifft: Awel Aman Tawe – elusen ynni cymunedol sy'n rhedeg cydweithfeydd ynni solar to ac ynni gwynt, hyb cymunedol, rhaglen addysg, a chynllun trafnidiaeth cymunedol

[10] Enghraifft: CADMHAS – gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl cymunedol sy'n cefnogi unigolion yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn

Mae cynrychiolaeth dda o'r sector gwirfoddol mewn **mudiadau angori cymunedol**. Mae ymddiriedolaethau datblygu[11], cydweithfeydd[12] a chymdeithasau tai[13] yn aml yn cydweithio'n agos fel rhan o'r ecosystem gwirfoddol lleol. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) yn darparu cymorth seilwaith gwirfoddol lleol yng Nghymru, gan weithredu fel mudiad angori cymunedol yn eu rhinwedd eu hunain yn ogystal â chefnogi eraill.[14] Mae'r sector gwirfoddol yn aml yn darparu lleoliadau i bobl allu cwrdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, ac yn cefnogi cymunedau i ddod ag eiddo i berchnogaeth gymunedol.[15]

Mae'r sector gwirfoddol yn cynnig **arbenigedd a chymorth arbenigol.** Mae'r Pwyllgor wedi nodi yr hoffent *ystyried y cyd-destun ehangach ar gyfer cydlyniant cymunedol yn dilyn ymosodiadau wedi'u targedu at ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn cymunedau ledled y DU yn ystod haf 2024.* Mae mudiadau arbenigol, fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru, yn bartner hollbwysig ar gyfer addysgu a gwrth-brofi camwybodaeth, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o integreiddio ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

## ASTUDIAETHAU ACHOS: MUDIADAU GWIRFODDOL FEL GYRWYR CYDLYNIANT CYMDEITHASOL

Mae gweithgareddau'r sector gwirfoddol yn aml yn pontio sawl penderfynydd llesiant cymdeithasol ac yn cynnig ymdeimlad o fod yn un, drwy wneud i aelodau o'r gymuned deimlo eu bod yn cael eu gweld, eu clywed a'u deall.

Elusen yng Nghaerdydd yw **NoFit State**, sydd â rhaglen gymunedol gyfoethog. Bu i un o'u partneriaethau, Milltir Sgwâr, gynnal rhaglen ddiwylliannol dros 14 mis yn Adamsdown, Sblot a Thremorfa. Daeth y bartneriaeth â chynghorwyr lleol, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, artistiaid lleol, ysgol gynradd, cymdeithas tai, elusen ffoaduriaid ac eco-fenter gymdeithasol, ac eraill, at ei gilydd. Mae prosiectau fel hyn yn creu cydlyniant cymdeithasol

---

[11] Enghreifftiau: Mae CYD Cymru yn rhannu astudiaethau achos aelodau ar eu gwefan; mae Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn rhannu 11 astudiaeth achos o fudiadau sy'n cymryd rhan yn eu Rhaglen Datblygu Angori Cymunedol
[12] Enghraifft: Prosiect Gwydnwch Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru – adroddiad yn dangos effaith mentrau economaidd dan arweiniad y gymuned yng Nghymru a gefnogir gan Cwmpas
[13] Enghraifft: Mae cymdeithasau tai Cymru yn addasu i adeiladu cartrefi addas i bawb – mae blog barn arbenigol gan Cartrefi Cymunedol Cymru yn rhannu enghreifftiau o gymdeithasau tai sy'n cymryd camau i addasu tai i fodloni anghenion lleol a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol
[14] Enghraifft: Prosiect Cydlyniant Cymdeithasol Dinas Noddfa Abertawe – wedi'i gyllido gan y Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS)
[15] Enghreifftiau: Resultery Projects Cymru – wedi'i gyllido drwy'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol; tafarn Riverside – wedi'i chyllido drwy'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol gyda chefnogaeth Cwmpas

drwy arddangos doniau lleol a rhoi cyfle i bobl leol feithrin perthynas drwy brofiad cadarnhaol maen nhw'n ei rannu. Mae cefnogaeth a phresenoldeb mudiadau lleol yn meithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth a chynefindra rhwng aelodau o'r gymuned a chynrychiolwyr.

Mae **Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid (EYST) Cymru** yn fudiad cenedlaethol sy'n hwyluso cydlyniant cymdeithasol drwy gefnogi a grymuso pobl ifanc a theuluoedd ethnig leiafrifol, ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae ganddyn nhw brosiectau lleol yn amrywio o wasanaethau cyflogadwyedd, drwy gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon, gwella mynediad at waith ieuenctid, i gefnogaeth ymgyfarwyddo ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Mae eu Prosiect Urban Safe yng Nghasnewydd yn lasbrint ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y sector cyhoeddus a gwirfoddol. Wedi'i gyllido gan Gronfa Gymunedol yr Heddlu drwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent, mae'r prosiect yn darparu mannau diogel a diwylliannol hygyrch i bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae'n gweithio gydag ysgolion, grwpiau cymunedol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol i '*ddarparu amgylchedd cadarnhaol i bobl ifanc ymgysylltu â mudiadau, i ddod yn hyderus ac i ddatblygu ymdeimlad o berthyn, a chael eu hysbrydoli gan fodelau rôl yn eu cymuned'*. Er nad yw plismona wedi'i ddatganoli, dim ond un rhan o'r pos yw hwn, gyda galluogwyr llesiant cymdeithasol eraill, fel mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn chwarae rhan bwysig.

Mae prosiectau cenedlaethol EYST yn mynd i'r afael â heriau systematig fel anghydraddoldebau tai ac addysg. Mae gan y prosiectau swyddogaeth ddeuol – maen nhw'n helpu defnyddwyr gwasanaethau drwy addysg ac eiriolaeth, ond maen nhw hefyd yn casglu data ac yn monitro tueddiadau, gan helpu i lywio polisi ac arfer cenedlaethol.

Mae gan fudiad gwirfoddol fel EYST lefel aruthrol o wybodaeth werthfawr rhwng eu prosiectau lleol a chenedlaethol. Mae modd defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall a helpu i ddatrys heriau cydlyniant cymdeithasol yn ogystal â llywio strategaeth genedlaethol.

Mae **ACE – Gweithredu yng Nghaerau a Threlái** yn elusen a ddatblygwyd gan y gymuned sy'n cael ei rhedeg gan breswylwyr Trelái a Chaerau yng ngorllewin Caerdydd. Chwaraeodd yr elusen ran hanfodol yn y cyfnod wedi terfysg Trelái 2023. Bu'n cyfweld â 1,200 o drigolion lleol gan roi cyfle iddyn nhw drafod anghenion y gymuned a chwalu camsyniadau am yr ardal maen nhw'n byw ynddi. Siaradodd y trigolion lleol am y diffyg mannau cyhoeddus a gweithgareddau sydd ar gael i bobl ifanc, a phwysigrwydd modelau rôl cadarnhaol. Mae eu greddf mewn perthynas â'r mater hwn wedi'i chefnogi gan ymchwil – canfu adroddiad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid

fod arddegwyr sydd wedi colli mynediad at glybiau ieuenctid yn perfformio 4% yn waeth yn yr ysgol ac yn 14% yn fwy tebygol o droseddu.[16] Mae rhoi cyfle i drigolion lleol rannu eu safbwyntiau a'u profiadau yn gadarnhaol – mae'n dangos eu bod nhw'n profi effaith yr un heriau systematig â llawer o gymunedau eraill ledled gwledydd Prydain. Mae bod â pherchnogaeth dros y naratif yn galluogi'r gymuned leol i ddod at ei gilydd a llunio dadl gref dros y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Mae hyn yn ail-fframio'r drafodaeth oddi wrth ddieithrio cymunedol ac anobaith at weithredu cadarnhaol a gobaith ar gyfer y dyfodol. Arweiniodd gwaith ACE at gynllun cymunedol 40 cam. Crëwyd y cynllun mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Bu ACE yn chwarae rôl gymodi amhrisiadwy fel cyfryngydd rhwng sefydliadau cyhoeddus a thrigolion, yn enwedig o ystyried natur y digwyddiad a ysgogodd y terfysg.

Yn yr un modd, chwaraeodd Canolfan Phoenix, sy'n cael ei rhedeg gan ymddiriedolaeth ddatblygu yn Abertawe, ran bwysig yn hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a gwydnwch cymunedol yn dilyn terfysg Mayhill yn 2021. Serch hynny, ni chafodd y sector gwirfoddol ei wahodd i gyfrannu at ymateb y sector cyhoeddus i'r terfysg, sy'n siomedig ac yn gyfle wedi'i golli.

Mae'r achosion hyn yn dangos y rôl hanfodol mae mudiadau gwirfoddol yn ei chwarae, nid yn unig o ran atal, ond hefyd yn y gwaith o gymodi ar ôl i gydlyniant cymdeithasol gael ei dorri.

## GALLUOGWYR A RHWYSTRAU

Mae tri galluogwr allweddol i fudiadau gwirfoddol sy'n cyfrannu tuag at gydlyniant cymdeithasol.

1. Mae'r sectorau gwirfoddol a chyhoeddus yn gweithio fel partneriaid cyfartal wrth gyflawni llesiant i bawb.

Mae cydweithio ar draws sectorau'n cael ei ystyried yn eang fel nodwedd ddiffiniol o'r ymateb i bandemig Covid-19 yng Nghymru. Mae dadansoddiad cymharol yn dangos bod gweithio mewn partneriaeth yn amlycach yng Nghymru nag yn yr un o wledydd eraill Prydain.[17] Serch hynny, cyfeiriodd sawl tîm ymchwil at y ffaith fod cysylltiadau a oedd eisoes yn bodoli wedi cael effaith sylweddol ar gyflymder a dyfnder y gweithio partneriaeth ar draws

---

[16] How cuts to youth clubs affected teen crime and education - Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2024

[17] Dadansoddiad rhagarweiniol o brosesau polisi achos-o-fewn ar draws 4 awdurdodaeth y Deyrnas Unedig – Mobilising UK Voluntary Action, 2022

gwahanol ranbarthau.[18] Mae ffurfio cysylltiadau mewn cyfnod o ansefydlogrwydd yn talu ar ei ganfed mewn cyfnodau o argyfwng. Diffinnir partneriaeth gyfartal gan gyd-gynhyrchu, deialog gynnar a pharhaus, tryloywder, sefydlu nodau cyffredin, ymgysylltiad nad yw'n echdynnol, adnoddau ac iawndal teg am gymryd rhan, a bod â rhaniad clir o gyfrifoldebau.

**Argymhelliad 2:** Dylai cyrff y sector cyhoeddus weithio gyda mudiadau gwirfoddol fel partneriaid cyfartal i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol.

2. Portffolio amrywiol o grantiau a chontractau cyhoeddus, yn cynnwys cyllid craidd aml-flwyddyn

Mae meddwl hirdymor a chyllid hirdymor yn mynd law yn llaw. Mae yna gorff sylweddol o dystiolaeth yn dangos bod cyllid hirdymor yn arwain at ganlyniadau gwell.[19] Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhestru'n benodol '*cyfleoedd cyllido'n fyr eu tymor a thameidiog.* ' fel analluogydd mewn perthynas â chyflawni *Cymru o Gymunedau Cydlynus*. Treuliodd Is-bwyllgor Cyllid a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector y ddwy flynedd ddiwethaf yn ymgynghori â rhanddeiliaid i adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Maen nhw wedi nodi pum egwyddor: *deialog cynnar a pharhaus, mesur gwerth a chanlyniadau, sail gyllido briodol, hyblygrwydd a thegwch.* Dylai pob corff cyhoeddus weithredu'r cod ymarfer i sicrhau bod sefydliadau angori cymunedol yn cael adnoddau priodol.

**Argymhelliad 3:** Dylai pob corff cyhoeddus weithredu a chadw at y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

3. Cyfeiriad strategol

Ni allwn gyflawni *Cymru o Gymunedau Cydlynus* heb gyfeiriad strategol. Mae gwirfoddolwyr cymunedol, busnesau lleol, a staff y sector cyhoeddus a gwirfoddol wedi cymryd camau breision wrth hyrwyddo cydlyniant cymunedol mewn ardaloedd lleol ledled Cymru. Heb gyfeiriad strategol, mae llawer iawn o gyfleoedd i rannu dysgu yn cael eu colli ac mae eu heffaith tu

[18] Lessons from lockdown- Mobilising Volunteers Effectively (MoVE), 2020; Volunteering and wellbeing in the pandemic - Part I: Learning from practice - Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2021; Y dyfodol rydym yn ei greu: gwersi o wirfoddoli mewn pandemig yng Nghymru – CGGC, 2023
[19] Time to end the dominance of short-term grants: The evidence for multi-year funding - Y Sefydliad ar gyfer Ymchwil Weithredol Gwirfoddol (IVAR), 2024

hwnt i'r ardal leol yn gyfyngedig. I'r gwrthwyneb, mae cymunedau sy'n cael trafferth dechrau mynd i'r afael â materion cydlyniant cymdeithasol yn profi diffyg adnoddau ac arweiniad ynghylch sut i gyflawni eu nodau. Mae hyn yn arwain at fwy o anghydraddoldebau ac yn gwaethygu'r rhaniad cymdeithasol ar draws y wlad.

Yn 2021, cyhoeddodd Is-grŵp Adfer ar Covid Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector adroddiad yn argymell datblygu **Polisi Cymunedol**.[20] Nododd yr Is-Grŵp yr angen hwn yn seiliedig ar yr adborth a gafwyd gan sawl rhwydwaith ar gyfer mudiadau'r sector gwirfoddol oedd yn rhan o'r ymateb i Covid-19. Ym mis Gorffennaf 2022, roedden ni'n falch o weld datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi eu hymrwymiad i ddatblygu polisi cymunedau. Yn anffodus, ni wnaed unrhyw gynnydd diriaethol ers hynny. Mae datblygu polisi cymunedau yn hanfodol er mwyn gweithio tuag at gydlyniant cymdeithasol ledled Cymru.

Pedwar conglfaen ein gweledigaeth ar gyfer polisi cymunedau yw:

- **Asedau Cymunedol** (sicrhau bod gan gymunedau fynediad at ofodau a rennir, gan gynnwys hawl y gymuned i brynu)
- **Gwydnwch Cymunedol** (adeiladu gallu cymunedau i ymateb i drychinebau naturiol ac argyfyngau)
- **Cydlyniant Cymunedol** (camau ataliol i leihau'r tebygolrwydd o aflonyddwch sifil treisgar)
- **Gwasanaethau Cymunedol** (mynediad teg at wasanaethau llesiant priodol)

Er mwyn bod yn ystyrlon, mae angen i'r polisi hwn fod yn uchelgeisiol, â digon o adnoddau, ac wedi'i ddiffinio gan gydweithio agos rhwng cyrff cyhoeddus, cymunedau, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chymunedau, cyrff cyhoeddus, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat i greu Polisi Cymunedol.

Mae'r argyfwng costau byw yn parhau i beri heriau sylweddol i fudiadau gwirfoddol a chymunedau. Mae pwysau costau byw yn arwain at alw uwch ar wasanaethau, wrth i fudiadau gwirfoddol gael trafferth recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr. Nid ydyn ni wedi gweld yr effaith lawn y bydd y cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr yn ei chael ar y

[20] Adroddiad yr Is-Grŵp Adfer ar Covid Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector – Is-Grŵp Adfer ar Covid Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, 2021

sector gwirfoddol yng Nghymru, ond rydyn ni wedi cael awgrym clir bod mudiadau gwirfoddol yn ystyried lleihau gwasanaethau a staff.[21] Yn y cyfamser, mae prisiau tanwydd, chwyddiant a'r gostyngiad ym mhŵer gwariant cartrefi'n cael effaith negyddol ar fentrau cymdeithasol ac asedau dan berchnogaeth y gymuned sy'n dibynnu ar incwm gwerthiant. Mae'r dirywiad yn iechyd ariannol y sector gwirfoddol yn ffactor risg sylweddol y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried mewn perthynas â chyflawni dyhead ein cenedl am gydlyniant cymdeithasol.

[21] Ble mae'r sector gwirfoddol yn y gyllideb ddrafft? – CGGC, 2024